Rhifyn 3, Tachwedd 2021

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# yr Athro

# Codiad cyflog



Cafwyd cadarnhad ddechrau mis Medi y byddai codiad cyflog o 1.75% i athrawon ar bob graddfa o fis Medi 2021 - yn unol ag argymhelliad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Gweinidog, Jeremy Miles AS, fod Llywodraeth Cymru'n darparu £6.4m ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd eisoes, tuag at gost y dyfarniad cyflog er mwyn amddiffyn cyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae'n ymddangos bod y cyllid wedi bod yn araf yn cyrraedd awdurdodau, ac felly bod rhai awdurdodau wedi sôn am dynnu cost y codiad cyflog yn rhannol o gyllidebau ysgolion. Mae UCAC wedi bod yn dadlau'n gryf yn erbyn gwneud hyn.

Mae UCAC yn croesawu'r codiad cyflog hyn, yn enwedig wrth ystyried rhewi cyflogau athrawon gan Lywodraeth San Steffan, ond yn cydnabod bod lefel cyflogau athrawon a phenaethiaid wedi cwympo'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac y mae'r codiadau hyn ond yn adfer y sefyllfa i raddau.

Dyma'r ddolen i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021:
https://llyw.cymru/dogfen-cyflog-ac-amodau-athrawon-ysgol-cymru-2021

Ochr yn ochr â Chylch Gwaith arferol y Corff Adolygu Cyflogau ar gyfer 2021-22, bydd y Corff yn cynnal **Adolygiad Strategol o Strwythur Tâl ac Amodau Gwaith Athrawon yng Nghymru**. Bydd hwn yn cynnwys materion hirach dymor ble mae angen mwy o ymchwil a thrafod nag sy'n bosib o fewn y cylch blynyddol arferol.

Mae UCAC wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau bod sylw i'r materion isod, ymhlith eraill, yn rhan o'r Adolygiad Strategol:

- ymgymryd â gwaith, ochr yn ochr â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru), i bennu sut dylid cydnabod Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ariannol
- ymgynghori ar newid i ganiatáu i athrawon rhan-amser dderbyn taliadau CAD1 a CAD2 amser llawn

Ac rydym yn parhau i bwyso i gynnwys:

- rhoi ystyriaeth i gynnwys athrawon cyflenwi o fewn darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

## Addysg Bellach

**Codiad cyflog**

Mewn ymateb i hawliad cyflog yr undebau addysg bellach ar y cyd, mae'r cyflogwyr wedi cynnig codiad cyflog o 1.75% i'r holl weithlu. Mae hyn yn cyfateb â chodiad cyflog athrawon ysgol, yn unol ag ymrwymiad hir-sefydlog Llywodraeth Cymru i gadw cydraddoldeb rhwng athrawon ysgol a darlithwyr addysg bellach.

Mae'n debygol y bydd yr undebau yn derbyn y cynnig, ond mi fydd yn ddibynnol ar gael cadarnhad gan y cyflogwyr eu bod yn cytuno i ofyniad penodol arall yn yr hawliad cyflog, sef cysoni nifer dyddiau gwyliau staff cymorth gyda staff eraill y sector.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £1.5m ychwanegol tuag at gost y codiad cyflog mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae ymrwymiad gan y colegau a'r undebau i ddechrau gwaith yn ystod y flwyddyn hon ar greu graddfeydd cyflog cenedlaethol ar gyfer staff cymorth, fel sy'n bodoli eisoes ar gyfer darlithwyr.

**Lleihau llwyth gwaith**

Mae gwaith sylweddol iawn yn digwydd ar hyn o bryd i geisio lleihau llwyth gwaith darlithwyr addysg bellach, ac mae UCAC yn ganolog i'r trafodaethau.

Mi ddylech chi fod yn ymwybodol o broses o ymchwilio a chynllunio oddi fewn i'ch colegau unigol ar hyn o bryd i greu cynigion penodol ar gyfer lliniaru ar lwyth gwaith darlithwyr.

Yn ychwanegol at hyn bydd y colegau a'r undebau ar y cyd yn llunio cais manwl i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol at ddibenion lleihau llwyth gwaith.

t2 Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion t3 Cynhadledd 2022 t6-9 Adnoddau

# Diweddariad COVID



Mae UCAC wedi parhau i fynychu cyfarfodydd ar ran ein haelodau yn genedlaethol, yn rhanbarthol a lleol gan gynnwys cefnogi athrawon unigol ac ysgolion cyfan.

Ymysg y trafodaethau rydym wedi cynnig sylwadau ar y canllawiau gweithredu ar gyfer ysgolion a cholegau gan gynnwys ysgolion arbennig. Hefyd, rydym wedi rhannu barn ein haelodau ar faterion penodol megis Covid Tymor Hir, peiriannau monitro C02 a pheiriannau diheintio. Rydym hefyd wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r Cyllid Caledi'n dod i ben.

Yn ddi-os, mae hi'n parhau'n amser heriol i'r byd addysg a phryderon ymysg ein haelodau am les ac iechyd staff ysgol ac am les ac iechyd y disgyblion. Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ffigyrau cwbl glir o ran niferoedd absenoldebau ymysg staff a disgyblion.

Hefyd, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod yr ergyd mae Covid wedi'i roi i les ac iechyd meddwl. Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r prosiectau peilot sydd wedi datblygu yn ystod cyfnod Covid ar gyfer gweledigaeth gyfannol tymor hir.

Rydym wedi cael cyfarfodydd cyson gyda Chyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru ac wedi cyfarfod gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i leisio'n barn. Cawsom fel undebau gyfarfod ar y cyd, wedi'i drefnu gan TUC Cymru, ble roedd athrawon ac arweinwyr o bob cwr o Gymru yn cynnig sylwadau am yr heriau mae ysgolion yn eu hwynebu.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw cafwyd cyfraniadau grymus a phwrpasol gan y Llywydd Cenedlaethol Nia Goode, y cyn-Lywydd Cenedlaethol Roger Vaughan a Nia Parry sy'n athrawes mewn ysgol arbennig yn sir Caerffili.

Mae darllediad o'r cyfarfod ar gael yma: https://www.youtube.com/watch?v=WJaNDjP6W8Q

Byddwn yn pwyso i sicrhau bod mesurau lliniaru'n parhau'n amlwg yn yr ysgolion gan nodi bod y sefyllfa bresennol yn andwyol i'n haelodau, e.e. pwysau ar Benaethiaid o ran Profi, Olrhain, Diogelu a chanran uchel o athrawon yn cael eu heintio.

Diolch i chwi fel aelodau am gysylltu gyda ni drwy gydol y cyfnod digyffelyb hwn yn hanes y byd addysg.

Diolch am rannu eich sylwadau a'ch barn ac am godi pryderon.

Gallwn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnal cefnogaeth o'r radd flaenaf i chwi fel aelodau UCAC.

**Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol**

# Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion – angen chwarae teg



*Nia Goode*

Gyda blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 mae gan Diwtoriaid Cymraeg i Oedolion ran allweddol i'w chwarae.

Mae hi ond yn iawn felly bod ganddynt undeb i ofalu amdanynt ac i sicrhau eu bod yn cael chwarae teg.

Fel Llywydd am y flwyddyn academaidd hon, rwyf am weld UCAC yn gweithio at sicrhau bod tiwtoriaid Cymraeg yn cael lle blaenllaw o fewn ein hundeb yn ogystal â'r byd addysg. Fel undeb, rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar greu pecyn gwybodaeth ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ac yn dechrau ar y gwaith o ymgyrchu tuag at wella tâl ac amodau gwaith y garfan bwysig hon o addysgwyr.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sydd erbyn hyn yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg i oedolion, ond bod mudiadau a sefydliadau megis prifysgolion, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn ennill cytundebau ar gyfer darparu tiwtoriaid yn lleol.

O ganlyniad mae amodau gwaith tiwtoriaid Cymraeg ar hyn o bryd yn gymhleth iawn, ac yn amrywio o un ardal o Gymru i'r llall. Mae'r mwyafrif o diwtoriaid yn derbyn cytundebau 'dim oriau' sy'n ei gwneud yn anos i ddenu a chadw staff.

Ymhellach, oherwydd natur y cytundebau a hyd y cyrsiau, sef 32 wythnos, nid ydynt yn derbyn tâl dros yr haf.

Fel athrawon, mae angen i diwtoriaid baratoi ar gyfer eu dosbarthiadau, ond nid ydynt yn derbyn cyflog am hynny, ond yn hytrach cânt eu talu am y gwersi y maent yn eu rhoi. Mae disgwyl i'r tiwtoriaid hefyd deithio i'w lleoedd gwaith, a hynny heb gostau teithio.

Galwn felly ar Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau bod cysondeb mewn amodau a thelerau gwaith tiwtoriaid ar draws sefydliadau gwahanol yng Nghymru.

Ymhlith rhai o'n hamcanion, hoffem weld cytundebau parhaol gydag oriau wedi'u gwarantu. Mae'r garfan yma o addysgwyr yn hanfodol ar gyfer parhad yr iaith Gymraeg ac felly yn garfan bwysig o fewn aelodaeth UCAC.

**Nia Goode, Llywydd Cenedlaethol**


## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Nia Goode
**Is-Lywydd:** Heulwen Howells
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Dilwyn Roberts-Young
**Cydlynydd Yr Athro:** Rebecca Williams

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

# Cynhadledd Flynyddol 2022

Mae'r pandemig wedi amharu ers dwy flynedd bellach ar y patrwm o gynnal Cynhadledd Flynyddol mewn lleoliad braf ac yng nghwmni'n gilydd.

Yn 2020, bu'n rhaid canslo'r Gynhadledd gan ei fod ar gychwyn y cyfnod clo cyntaf. Yn 2021, bu modd cynnal Cynhadledd Amgen ar-lein, gan agor y drysau rhithiol i bob aelod o'r undeb gael ymuno.

Mae Pwyllgor Rheolau Sefydlog yr undeb newydd wneud penderfyniad ynghylch trefniadau Cynhadledd Flynyddol 2022.

Er bod pawb wedi gobeithio y byddai modd inni ymweld â Gwesty Cwrt Bleddyn ym Mrynbuga (sef y bwriad ers 2020), ni allwn fod yn ddigon sicr o'r amodau yn y gwanwyn, yn enwedig o safbwynt trefniadau llety, i fwrw ymlaen.

Felly, y cynllun yw:

- cynnal y Gynhadledd yn nhymor yr haf, yn gynnar ym Mehefin (dyddiad i'w gadarnhau), pan rydym yn gobeithio y bydd y sefyllfa rhywfaint yn fwy sefydlog mewn sefydliadau addysg
- Cynhadledd undydd wedi ei lleoli mewn cyfleusterau cynhadledd ym Mhrifysgol Aberystwyth
- bydd opsiwn i'r cynadleddwyr ymuno â'r Gynhadledd yn gorfforol yn Aberystwyth neu ar-lein
- bydd trafodaeth ar gynigion, yn ôl yr arfer, a siaradwr gwadd (i'w gadarnhau) a byddwn yn urddo'r Llywydd ar gyfer 2022-23 sef Heulwen Howells

Byddwn yn cadarnhau'r holl fanylion yn agosach at yr amser.

A gobeithiwn gyrraedd Brynbuga yng ngwanwyn 2023!

# Eich Aelodaeth

**Hawlio ad-daliad treth incwm**
Mae hawl gan athro neu ddarlithydd roi tâl aelodaeth undeb yn erbyn treth incwm a chael ad-daliad.

Er enghraifft, ar gyfer 2021 gallai athro llawn amser hawlio 20% neu 40% o £204 yn ôl.

Os nad ydych chi wedi bod yn hawlio'r ad-daliad hwn yn flynyddol, mae modd i chi hawlio am y pedair blynedd diwethaf.

Dyma gyswllt i wefan Cyllid a Thollau EM sy'n egluro sut i wneud y cais. Mae modd gwneud y cais arlein, dros y ffôn neu drwy'r post:

Hawlio rhyddhad Treth Incwm ar gyfer eich treuliau cyflogaeth (P87) - GOV.UK
(www.gov.uk)

Gallwch weld fanylion tâl aelodaeth UCAC dros y pedair blynedd diwethaf fan hyn:
https://bit.ly/3q1o1dT

**Diweddaru'ch manylion**
Os ydych chi'n **newid eich oriau gwaith**, cofiwch wirio a yw hynny'n golygu bod eich categori aelodaeth yn newid: https://bit.ly/31l1uhM

Os oes newid i'ch categori aelodaeth, cofiwch roi gwybod i ni, neu mewngofnodwch i'ch cyfri i ddiweddaru'r manylion. Gallwch wneud hynny trwy fynd i www.ucac.cymru a dewis Mewngofnodi.

Os ydych yn mynd i gymryd **Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu neu Rhiant a Rennir**, cofiwch fod eich taliadau aelodaeth yn hanner pris yn ystod y cyfnod, os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol.

Er mwyn manteisio ar hyn, mae'n angenrheidiol i chi rhoi gwybod i ni.

**Nid oes rheidrwydd ar UCAC i gynnig ad-daliadau os nad ydych wedi ein hysbysu o'r newid angenrheidiol.**



# Llwyth Gwaith




Mae Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021 sydd ar gael ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg (https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ymchwil-ac-ystadegau/arolwg-o-r-gweithlu-addysg-cenedlaethol.html) yn ddarlun clir bod llwyth gwaith yn bryder parhaus ym myd addysg ac mae UCAC o'r farn bod y trafodaethau i leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth yn symud yn llawer rhy araf.

Rydym yn parhau i leisio'n barn yn gryf am effaith andwyol llwyth gwaith ar les ac iechyd mewn cyfarfodydd sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, y Consortia, Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mewn cyfarfod diweddar gyda'r consortia bu i mi amlygu bod aneglurder am yr hyn sy'n ddisgwyliadwy gan ysgolion wedi i aelodau gysylltu gyda ni i drafod materion megis y rheidrwydd i graffu ar lyfrau. Yr ymateb oedd bod unrhyw ofynion yn rhai sy'n deillio o drafodaeth a chytundeb gan fod cefnogaeth wedi'i deilwra at anghenion yr ysgolion. Mae angen sicrhau bod y drafodaeth honno'n agored ac yn ystyried barn holl aelodau o staff a heriau penodol sy'n deillio o effaith Covid ar yr ysgolion.

Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sy'n teimlo bod y pwysau'n affwysol mewn cyfnod mor anodd a ble mae cwestiwn yn codi yn y berthynas rhwng llwyth gwaith ac ystyried eich lles a'ch hawl i fywyd sydd i ffwrdd o waith ysgol.

Law yn llaw gyda'n cyfraniadau i'r drafodaeth ar leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth mae ein presenoldeb yn y cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth ar Gyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon sydd nawr yn ail-ddechrau i flaenoriaethu'r cylch diweddaraf o ystyriaethau.

Mae'n dda gallu nodi bod y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn eu trydydd adroddiad (2021) yn rhoi sylw i'r angen am ystyriaeth o lwyth gwaith athrawon ac arweinwyr, addasrwydd y model ar gyfer amser athrawon dan gyfarwyddyd ac amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu.

Ymysg y materion i'w rhoi ar waith eleni mae'r angen i "ystyried a yw'r lwfans AAA presennol yn briodol fel adlewyrchiad o rolau, cyfrifoldebau a llwyth gwaith, gan roi ystyriaeth arbennig i gysondeb a phriodoldeb y dyfarniadau".

Hyd yn hyn, rydym wedi bod yn bragmataidd yn cymryd camau bychain tuag at gynnydd yn y cyflog a newidiadau sy'n diogelu a chryfhau'r cyflogau hynny gan weld cynnydd cyflog nas cafwyd yn Lloegr. Bydd y bennod nesaf ar daith datganoli cyflogau ac amodau gwaith yn mynd i'r afael ag agweddau sy'n cydnabod yr angen i ystyried hefyd yr amodau gwaith eu hunain.

Yn sicr, mae hwn yn gam tuag at wireddu gweledigaeth UCAC o sicrhau cyfundrefn addysg sy'n bwrpasol i athrawon ac arweinyddion ysgolion Cymru.

**Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol**

# Cyfarfodydd Rhanbarthol – dewch yn llu!

Gan ein bod ni'n dal i fod yn y cyfnod o arbrofi ac addasu yn sgil y pandemig, rydym wedi newid y drefn gyda'r cyfarfodydd sirol y tymor hwn.

Yn hytrach na bod pob sir, neu bâr/grŵp o siroedd, yn cwrdd yn unigol - a gan ein bod yn cwrdd ar-lein gan oresgyn anawsterau daearyddol, rydym yn cynnal cyfarfodydd rhanbarthol y tymor hwn.

Mae cyfarfod y De-ddwyrain eisoes wedi digwydd, ac mae'r Canolbarth a'r De-orllewin, a'r Gogledd yn fuan iawn – gweler y manylion isod. Mi ddylech fod wedi derbyn gwahoddiad ar ebost; os na, cysylltwch cyn gynted â phosib ar ucac@ucac.cymru

Dewch yn llu – i fynegi barn ac i ymuno yn y drafodaeth.



**UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru**

## CYFARFODYDD RHANBARTHOL UCAC

Cyfle i drafod materion sy'n achosi pryder i chi;

- Heriau Covid
- Codiad Cyflog a newidiadau i'r ddogfen amodau gwaith
- Unrhyw fater lleol
- Unrhyw fater Cenedlaethol arall gan y Swyddog Maes

**Ar-lein drwy TEAMS**

**Dewch yn llu** i ddweud eich dweud a derbyn diweddariadau am waith eich undeb chi.

**UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru**

## CYFARFOD RHANBARTHOL Y DE-DDWYRAIN

NOS IAU
4 TACHWEDD
6 O'R GLOCH

## CYFARFOD RHANBARTHOL Y CANOLBARTH A'R DE-ORLLEWIN

NOS FAWRTH
9 TACHWEDD
6 O'R GLOCH

## CYFARFOD RHANBARTHOL Y GOGLEDD

NOS IAU
11 TACHWEDD
6 O'R GLOCH




Cymdeithas y Clefyd Macwlaidd yw’r brif elusen genedlaethol sy’n cefnogi pobl sy’n byw gyda chlefyd macwlaidd.

Clefyd macwlaidd yw’r math mwyaf o golli golwg yn y Deyrnas Gyfunol heddiw ac mae’n effeithio’n bennaf ar bobl hŷn fodd bynnag; gall plant a phobl ifanc hefyd ddioddef gyda Dystroffïau Macwlaidd.

Gall dystroffïau macwlaidd beri i blant a phobl ifanc gael anawsterau yn yr ystafell ddosbarth gyda gweithgareddau fel darllen, ymarferion ymarferol ac adnabod eu ffrindiau a’u hathrawon.

Er mwyn cefnogi athrawon i ddeall y ffordd orau i ddysgu pobl ifanc a phlant sydd â cholled golwg canolog, mae’r Gymdeithas Macwlaidd wedi creu cyfres o daflenni ffeithiau cwricwlwm ar-lein. Mae’r deunyddiau’n cynnwys gwybodaeth am bynciau fel Saesneg, Mathemateg, y Gwyddorau a Chelf ac maent yn cynnig syniadau ymarferol ar y ffordd orau i gefnogi myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth. Mae rhagor o adnoddau yn yr arfaeth dros y flwyddyn ysgol.

Mae Cymdeithas y Clefyd Macwlaidd yn ystyried sefydlu grŵp cyfrwng Cymraeg. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Marian Williams ar marian.williams@macularsociety.org

Mae'r adnoddau ar gael fan hyn: https://www.macularsociety.org/support/resources/teaching-resources/




## Prosiect Gwydnwch

Mae’r Prosiect Gwydnwch yn brosiect gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro mewn partneriaeth â’r Sefydliad Iechyd Meddwl, y sector addysg a’r gwasanaethau cymdeithasol. Ei nod yw cynyddu adnoddau, arbenigedd a gwydnwch iechyd meddwl i Blant a Phobl Ifanc ledled **Caerdydd a Bro Morgannwg**.

Nod y prosiect yw cynyddu adnoddau, arbenigedd a gwydnwch iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc, trwy leoliadau addysg yn bennaf.

Mae’r prosiect wedi datblygu adnoddau iechyd meddwl a gwydnwch ar gyfer staff, pobl ifanc a theuluoedd.

Yn ogystal, mae’n darparu hyfforddiant i staff addysg; y cyfle i staff addysg ymgynghori gyda seicolegydd ynghylch plant a phobl ifanc penodol; gwaith grŵp i hyrwyddo gwydnwch a lles plant; ac ymyrraeth uniongyrchol a arweinir gan seicolegydd ar gyfer plant a theuluoedd sydd fwyaf mewn angen ac nad ydynt yn bodloni’r meini prawf ar gyfer gwasanaethau eraill.

https://bipcaf.gig.cymru/our-services/children-young-people-family-health-services/cypf-emotional-wellbeing-mental-health/prosiect-gwydnwch/



## Taith Maes Bwyd HCC

Mae gan Hybu Cig Cymru adnoddau addysg ar gyfer pob Cyfnod Allweddol o’r Cyfnod Sylfaen hyd at Cyfnod Allweddol 4.

Mae’r adnoddau, sy’n cynnwys taflenni gwaith, fideos, ryseitiau, cwisiau rhyngweithiol a mwy, ar gael am ddim i’w lawrlwytho: https://hwbcigcoch.cymru/adnoddau-addysg/




## Llyfrau Broga

Mae Llyfrau Broga newydd lansio cyfres o lyfrau, sef *Enwogion o Fri*, wedi ei hanelu at gynulleidfa ifanc, oddeutu 3-7 oed, sy'n cyflwyno rhai o enwogion Cymru ar ffurf Llyfrau Gair a Llun.

Mae artist ac awdur gwahanol wedi creu pob cyfrol, o artistiaid a beirdd i wyddonwyr ac unigolion ym myd chwaraeon. Dyma'r tri llyfr cyntaf yn y gyfres:


- **Cranogwen - Bywyd Arloesol Sarah Jane Rees** (Geiriau: Anni Llŷn. Lluniau: Rhiannon Parnis)
- **Gwen - Bywyd Lliwgar Gwen John** (Geiriau: Casia Wiliam. Lluniau: Gwen Millward)
- **Shirley - Bywyd Byrlymus Shirley Bassey** (Geiriau: Bethan Gwanas. Lluniau: Hanna Harris)


Mae'r gyfres ar werth am £5.99 yr un ac ar gael yn y siopau llyfrau neu o wefan Gwales (www.gwales.com).


Ar gyfer plant hŷn, mae tri llyfr comic newydd. Mae *Yr Allwedd Amser* gan Ben Hillman, *Rali'r Gofod 4002* gan Joe Watson a *Gwil Garw a'r Carchar Crisial* gan Huw Aaron, i gyd wedi eu hanelu at blant 7-12 oed. Mae'r wasg yn grediniol fod llyfrau comics yn ffordd wych o ddenu darllenwyr anfoddog neu anhyderus i agor y cloriau.


Maent ar gael am £6.99 yr un yn eich siop lyfrau lleol neu ar wefan Gwales (www.Gwales.com).


https://broga.cymru











# Llyfrau gwreiddiol i ysgolion gan awduron ac artistiaid o Gymru




£3.99
CA1


Dysgu gyda Cyw (ail-iaith Cymraeg)
£3.95 yr un
CA1







Cyfres Cyw
£3.95 yr un
CA1





£5.99
CA1




£5.99
CA1




£4.99
CA1





Na, Nel!
9 o deitlau
£4.99 yr un
CA2




£5.99
yr un
CA2





£7.99
CA2







£5.99
CA1+2




£5.99
CA2




£5.99
CA2




Enillydd Gwobr Tir na n-Og 2021
£5.99 | CA2


a mwy...

y lolfa


Llyfrau dros Gymru

Ewch i www.ylolfa.com am restr lawn o'n cyhoeddiadau i ysgolion

# Llyfrau gwreiddiol i ysgolion gan awduron ac artistiaid o Gymru





£6.99
CA2





£6.99
CA3

## Darllen yn Well




£7.99
CA2+3

## Gorau'r Goreuon





£5.99
CA2






£6.99
CA3/4/5






£6.99
CA3/4/5





*Cyfres sy'n trafod themau fel galar, hiliaeth, anabledd, llys-deuluoedd, gorbryder, bwlio, hunaniaeth, salwch hirdymor, cydsynio rhywiol*

*£5.99 yr un | £25 am y set focs*

**a mwy...**

y lolfa

*Llyfrau dros Gymru*

**Ewch i www.ylolfa.com am restr lawn o'n cyhoeddiadau i ysgolion**